# Cyngor Bro Morgannwg

## CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL

### Cod Ymarfer ar gyfer

### Ysgolion, rhieni a disgyblion, gyrwyr, hebryngwyr a chontractwyr

# Cyflwyniad

Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi ei baratoi fel arweiniad i ysgolion, disgyblion, rhieni, gyrwyr, hebryngwyr a chontractwyr er mwyn sicrhau ein bod ni oll yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau fel bod gwasanaeth diogel ac effeithiol yn cael ei gynnig i ddisgyblion prif ffrwd ac anghenion dysgu ychwanegol (a elwir yn ADY o hyn allan) sy'n teithio ar gludiant o'r cartref i'r ysgol.

Mae'r polisi Cludiant Ysgolion ar gael ar wefan Bro Morgannwg.

Ein nod yw cynnig siwrne ddibynadwy sy'n rhydd rhag straen i'r ysgol ac adref.

Mae croeso bob amser i awgrymiadau ar gyfer gwella'r gwasanaeth.

**Manylion y Tîm Cludiant Teithwyr**
Ym Mro Morgannwg mae pob swyddogaeth sy'n ymwneud â chludiant ysgolion a cholegau yn dod dan fantell yr Adran Gwasanaethau Gweledol a Chludiant.

**Gellir anfon unrhyw ohebiaeth at:**

Cyngor Bro Morgannwg
Y Tîm Cludiant Teithwyr
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gweledol a Chludiant
Depo'r Alpau
Heol y Quarry
Gwenfô
CF5 6AA

Y rhif ffôn cyswllt yw: **01446 700111**
Cludiant ysgol prif ffrwd E-bost: schooltransport@valeofglamorgan.gov.uk
Cludiant Ysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol E-bost: schooltransportsen@valeofglamorgan.gov.uk

**Gwefan**

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/transportation/transportation.aspx

# Y Tîm Cludiant

Mae Tîm Cludiant Teithwyr Bro Morgannwg ar hyn o bryd yn darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol i dros 3,900 o ddisgyblion yn teithio i ysgolion prif ffrwd a rhai arbennig ynghyd ag unedau adnoddau ar 200 o lwybrau bws a thacsi.

Nodau a chyfrifoldeb y Tîm Cludiant yw:

- Asesu a dyrannu disgyblion i gael cludiant addas o fewn 10 diwrnod ysgol wedi derbyn y cais.
- Tendro am a chynnig contractau ar gyfer cludiant addas
- Monitro a gwirio gweithrediad y contractau ar hap trwy gydol y flwyddyn
- Cynnig gwasanaeth effeithlon a chost effeithiol
- Ymchwilio i a chofnodi unrhyw bryderon neu gwynion
- Anfon llythyrau cyn dechrau'r tymor gan roi gwybodaeth ynghylch dosraniad y llwybrau
- Rhoi pàs bws i bob disgybl prif ffrwd fydd yn ei alluogi i deithio ar y gwasanaeth a ddosrannwyd ar eu cyfer
- Hysbysu disgyblion o'u rhwymedigaethau dan God Ymddygiad Teithio Dysgwr Cymraeg
- Prosesu'r holl daliadau sy'n ymwneud â chludiant ysgolion
- Sicrhau y gweithredir contractau yn unol â thelerau ac amodau'r Contract.
- Diweddaru gwybodaeth ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus gyda gwybodaeth yn ymwneud â chludiant ysgolion.
- Mynychu cyfarfodydd i drafod trefniadau a materion cludiant ysgol
- Mynychu cyfarfodydd cyngor ysgol i drafod materion sy'n fater pryder i ddisgyblion sy'n ymwneud â chludiant ysgol.

# Ysgolion

- Dylai ysgolion sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau dan Fesur Teithio Dysgwyr Llywodraeth Cymru a bod y Cod Ymddygiad Teithio yn cael ei hyrwyddo i ddisgyblion.

- Dylai ysgolion gydymffurfio â'r Polisi Cludiant Ysgol a sicrhau ei fod yn ateb eu hanghenion drwy ymgysylltu'n weithredol yn y Broses Ymgynghori, gallasai hyn olygu bod Cyngor yr Ysgol yn cymryd rhan.

- Disgwylir i ysgolion adolygu tudalennau gwe Cludiant Ysgolion yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf yn ymwneud â newid i'r gwasanaeth a deddfwriaeth.

- Dylai ysgolion sicrhau eu bod yn enwebu aelod o staff fel cyswllt ar gyfer pob mater yn ymwneud â chludiant ysgol a bod rhywun ar gael i gynorthwyo'r tîm cludiant os na fydd rhieni adref neu ar y safle bws pan fo'r cludiant yn cyrraedd ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Dylai manylion cyfredol rhieni fod ar gael.

- Dylai Penaethiaid adael i gerbydau ddadlwytho a chasglu teithwyr ar diroedd yr ysgol lle bynnag y bo modd neu roi cymorth o'r briffordd ar gyfer rhai llwybrau wedi trafod hynny gyda'r tîm cludiant.

- Rhaid i ysgolion cynradd sicrhau fod rhywun yno i gwrdd â disgyblion cludiant ysgol yn y boreau a'u hebrwng at y darparwr cludiant yn y prynhawniau.

- Gofynnir i ysgolion roi gwybodaeth yn uniongyrchol i'r Tîm Cludiant Teithwyr cyn gynted ag y bo modd ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â'r gwasanaeth

- Dylid atgoffa disgyblion cynradd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol i ymweld â'r tŷ bach cyn y siwrne yn y prynhawn ac ni ddylid eu rhoi ar y cludiant os ydynt yn ofidus neu wedi cynhyrfu.

- Dylai ysgolion roi gwybod am ddyddiau hyfforddiant mewn swydd cyn gynted ag y bo modd, yn ddelfrydol dim hwyrach nag un mis cyn y dyddiad dan sylw. Dylai ysgolion y Fro gwblhau'r ffurflen hyfforddiant mewn swydd sydd ar Staffnet. Gallai methu â gwneud hyn arwain at yr ysgol yn gorfod talu am unrhyw gludiant diangen.

- Mae ysgolion sy'n cau yn gynharach nag arfer yn gyfrifol am sicrhau bod rhieni disgyblion cynradd ac ADY ar gael i dderbyn eu plant (neu wedi trefnu i oedolyn cyfrifol arall wneud hynny).

- Mae'n bwysig bod gofynion cludiant disgyblion ADY yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Nid oes angen cynnig cludiant ar gyfer holl gyfnod addysg y disgybl.

ADY – Mae'r Tîm yn ddiolchgar am y cymorth gan ysgolion wrth gynllunio llefydd priodol ar gyfer disgyblion ADY ac am yr arweiniad i yrwyr ar drefniadau gollwng a chodi ysgolion.

Os oes problem yna rhowch wybod i ni gan ein bod yn awyddus i ddatrys unrhyw faterion cyn gynted ag y bo modd.

Croesawn unrhyw awgrymiadau gennych ar wella'r gwasanaeth.

# Canllaw Rhiant / Gofalwr a Disgybl

### Cymhwysedd

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fesur Teithio Dysgwr (Cymru) sy'n gosod dyletswydd statudol i ddarparu cludiant i ddisgyblion cymwys i'r ysgol ac adre'n ôl. Mae hyn wedi ei ddiffinio fel dros ddwy filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion oed Cynradd a 3 milltir ar gyfer Disgyblion oed Uwchradd (Ar ddisgresiwn y cyngor mae'r meini prawf hyn hefyd yn gymwys ar gyfer y disgyblion hynny sydd ym mlwyddyn 12 a 13 sy'n mynychu'r ysgol addas agosaf. Gweler hefyd y polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol sydd ar gael ar wefan y Fro.
Caiff pellteroedd eu mesur yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael gydag oedolyn cyfrifol i hebrwng os bydd angen.

Ar hyn o bryd mae cyngor Bro Morgannwg yn cynnig cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd prif ffrwd yn ôl ei ddisgresiwn.

Mewn amgylchiadau pan fo'r ysgol prif ffrwd agosaf yn llawn a derbyn wedi ei wrthod, caiff cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ei gynnig i'r ysgol addas agosaf nesaf yn unig. Rhaid parhau i gydymffurfio â'r pellteroedd cymwys fel y nodwyd uchod.

Y Cyngor, fel yr Awdurdod Addysg Leol ynghyd â'r ysgolion fydd yn penderfynu os yw ysgol yn llawn mewn unrhyw flwyddyn academaidd. Dim ond pan dderbynnir y wybodaeth angenrheidiol a'i gadarnhau y bydd y Cyngor yn penderfynu o safbwynt cynnig cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i'r ysgol addas agosaf nesaf. Os yw rhieni wedyn yn gwneud trefniadau i frodyr a chwiorydd iau fynychu unrhyw ysgol ac eithrio'r ysgol addas agosaf yna nhw fydd yn gyfrifol am wneud eu trefniadau cludiant eu hunain.

Pan fo disgybl, o ganlyniad i ddewis rhiant, yn mynychu ysgol arall yn hytrach na'r ysgol addas agosaf yn ôl diffiniad Cyngor Bro Morgannwg, rhaid deall fod rhieni yn cymryd cyfrifoldeb llawn dros wneud eu trefniadau cludiant eu hunain.

### Trefniadau

Mae gan Ddisgyblion a Rhieni/Gofalwyr swyddogaeth hanfodol wrth gynorthwyo gyda sicrhau gwasanaeth effeithiol er mwyn sicrhau bod y teithiwr yn cael dechrau da i'w ddiwrnod ysgol. Anelwn at ddarparu siwrne gyfforddus a di-straen.
Gall mathau o gludiant fod ar ffurf -

- Bysiau ysgol penodedig, bws mini neu dacsi gyda neu heb hebryngwr (does dim modd cynnig gwasanaeth drws i ddrws bob tro ac mae'n bosib y bydd gofyn i deithwyr fynd at bwynt codi y cytunwyd arno ymlaen llaw.
- Bws lleol neu bàs trên. Mae'n bosib bod gan rai disgyblion bàs teithio consesiynol eisoes, neu fod hawl ganddynt fod ag un, fel y nodwyd uchod a dylid defnyddio'r rhain lle bynnag y bo modd.
- Hebrwng wrth gerdded i'r ysgol.
- Gellir ystyried talu rhiant dim ond mewn achosion eithriadol lle nad oes modd cynnig cludiant.

**Cludiant ysgol prif ffrwd –** Derbynnir enwau disgyblion gan y Tîm Derbyn Ysgolion a chan rai ysgolion i bennu cymhwysedd. Caiff trwyddedau bws eu hanfon i'r cyfeiriad cartref yn ystod

gwyliau'r haf. Os nad ydych wedi derbyn eich trwydded deithio bythefnos cyn dechrau'r tymor ysgol newydd, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt Un Fro ar 01446 700111 fydd yn sicrhau bod eich neges yn cael ei drosglwyddo i'r isadran gludiant. Wrth dderbyn trwydded fws rydych yn ymrwymo i God Ymddygiad Teithio Llywodraeth Cymru y ceir ei fanylion ar wefan Bro Morgannwg ynghyd â'r polisi Cludiant Ysgol. Os nad oes trwydded gennych, ni chewch deithio - **DIM TRWYDDED = DIM TEITHIO**

---

**Cludiant ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) –** Mae modd diwallu'r rhan fwyaf o anghenion dysgu ychwanegol o fewn yr ysgol leol ac felly ni fyddai cludiant yn cael ei gynnig oni bai fod y meini prawf pellter yn berthnasol.

Os dewiswch ysgol prif ffrwd wahanol, ni ddarperir cludiant.

Does dim hawl awtomatig i gludiant ysgol am ddim ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Caiff cymhwysedd ei bennu gan Wasanaeth Cefnogi Disgyblion y cyngor a fydd yn seiliedig ar

a) y meini prawf milltiroedd
   Neu
b) Bod cyflwr meddygol neu gorfforol yn rhwystro'r gallu i gerdded neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a hynny yng nghwmni oedolyn cyfrifol os bydd angen. Bydd angen tystiolaeth ar yr achosion hyn ac fe fyddant yn mynd ger bron panel er mwyn dod i benderfyniad.

Mae proses gludiant ADY yn dechrau gyda'r Gwasanaeth Cefnogi Disgyblion yn cyhoeddi ffurflen gais ar gyfer cludiant i riant/gofalwr disgybl cymwys i'w gwblhau cyn trefnu'r cludiant. Sicrhewch fod y wybodaeth yma yn gywir er mwyn cynorthwyo'r gyrrwr a'r hebryngwr, unwaith i'r ffurflen hon gael ei dychwelyd i'r Gwasanaeth Cefnogi Disgyblion fe fyddan nhw wedyn yn rhoi copi ohono i'r isadran gludiant. Gall trefniadau gymryd hyd at 10 diwrnod ysgol i'w trefnu. Os oes lle mewn ysgol ar gael cyn bod modd trefnu cludiant efallai y bydd yn rhaid i chi wneud eich trefniadau eich hunain fel bod eich plentyn yn gallu mynd i'r ysgol a dod adref. Unwaith i gludiant gael ei drefnu, sicrhewch fod y seddi/seddi codi neu offer clymu cadair olwyn cywir yn eu lle gan y contractwr.

Os gwrthodir cludiant ar sail milltiroedd ac y credwch y dylech fod yn gymwys am resymau eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Cefnogi Disgyblion ar 01446 709180 ac mae'n bosib y caiff eich achos ei hatgyfeirio i banel gael ei hystyried.

Ni chaiff cludiant ei gynnig drwy gydol cyfnod disgybl mewn ysgol ac fe gaiff ei adolygu yn flynyddol man lleiaf. Ni ddylech gymryd yn ganiataol y bydd cludiant wedi ei ddarparu drwy'r adeg.

---

Mae'n bosib y gall disgyblion ag anghenion penodol nad sy'n gymwys i dderbyn cludiant ysgol am ddim, fod yn gymwys i dderbyn pàs bws consesiynol. Mae gwybodaeth ar gael ar wefan y Fro neu drwy gysylltu ag Un Fro ar 01446 700111.

**Tacsis a Bysiau mini** – Pan fo trefniant drws i ddrws wedi ei wneud fe ddylai'r rhiant/gofalwr/disgybl gadw golwg am y tacsi. Dylai rhiant/gofalwr fynd â'r disgybl at y tacsi a'i gasglu o'r tacsi am na ellir gadael teithwyr eraill ar eu pennau eu hunain.

Os nad oes angen cludiant yn y bore yn sgil apwyntiad gyda'r meddyg neu'r deintydd, sicrhewch fod y contractwr yn ymwybodol eich bod wedi mynd â'ch plentyn i'r ysgol a bod angen cludiant yn y prynhawn.

Mae rhieni/gofalwyr yn llwyr gyfrifol am ddiogelwch eu plant tan iddynt fynd i'r cerbyd a'r eiliad y dônt allan o'r cerbyd. Mewn ambell achos bydd gofyn i riant/gofalwr gynorthwyo i godi/helpu eu plentyn i'r cerbyd neu gynorthwyo gyda gosod eu plentyn yn yr harnais cywir. Gall y tacsi aros am dri munud yn unig os nad yw'r disgybl yn barod.

Mae’r cludiant i’r cyfeiriad cartref yn unig ac oddi yno'r un modd ac ni ddylid gofyn i’r gyrrwr amrywio hynny. Mewn adeg pan fo angen gwneud trefniant brys cysylltwch â’r Tîm Cludiant Teithwyr. Os nad yw’r rhiant/gofalwr adref ar ddiwedd y dydd, bydd y gyrrwr yn gadael nodyn yn y tŷ gyda manylion cyswllt i ddweud ei fod ef/hi wedi galw ac y bydd yn cysylltu â’r cydlynydd cludiant ar ei union er mwyn cael cyngor. Y cyngor fel rheol fyddai rhoi cynnig eilwaith ar y cyfeiriad cartref ar ddiwedd y daith gan ddibynnu ar lwybr y tacsi, ac wedi i’r disgyblion eraill gael eu cludo adref. Os nad oes neb ar gael bryd hynny i dderbyn y plentyn, fel rheol y cyngor fyddai i fynd â’r plentyn yn ôl i’r ysgol (gan ddibynnu ar leoliad ac amser). Mae’n bosib y bydd y Tîm Cludiant Teithwyr hefyd yn cysylltu â’r gwasanaethau cymdeithasol gan na all gyrwyr a hebryngwyr gadw plant gyda nhw ar ôl cwblhau eu taith. Gall problemau cyson arwain at ddiddymu’r ddarpariaeth gludiant.

**Bysiau ysgol penodedig** – Pan fo disgyblion yn teithio ar fysiau dylai’r disgyblion fod yn disgwyl am y bws yn y man perthnasol 5 munud cyn yr adeg y dylai’r bws gyrraedd. Ar ddiwedd y dydd dylai rhieni/gofalwyr disgyblion oed cynradd sicrhau eu bod ar y safle bws mewn da bryd i dderbyn eu plentyn.
Os nad yw rhieni/gofalwyr adref neu ar y safle bws ar ddiwedd y dydd, bydd y darparwr cludiant yn cysylltu â’r Tîm Cludiant Teithwyr i gael cyngor. Gallai hynny olygu parhau â’r siwrne os yn bosibl wrth geisio cysylltu gyda’r rhiant/gofalwr. Efallai mai’r cyngor fyddai dychwelyd y disgybl i’r ysgol. Mae’n bosib y bydd y cydlynydd Cludiant hefyd yn cysylltu â’r gwasanaethau cymdeithasol gan na all Gyrwyr a hebryngwyr gadw plant gyda nhw ar ôl cwblhau eu taith. Gall problemau cyson arwain at ddiddymu’r ddarpariaeth gludiant.

Rhai pwyntiau i'w hystyried -

- Dylai disgyblion barchu eraill ac ymddwyn yn briodol
- Dylai disgyblion eistedd yn eu seddau â gwregys amdanynt wrth deithio.
- Dylai disgyblion ddilyn cyfarwyddiadau gan y gyrrwr/hebryngwr.
- Ni chaniateir i ddisgyblion (prif ffrwd) deithio heb drwydded bws. Dim trwydded = Dim teithio
- Dylai disgyblion gymryd gofal wrth groesi’r ffordd
- Dylai disgyblion wisgo dillad addas heb eitemau yn llusgo o’u hôl megis sgarffiau allai gydio mewn drysau.
- Ni ddylai disgyblion chwarae o gwmpas neu wthio eraill wrth aros ar fin y ffordd am y bws.
- Dylai rhieni/gofalwyr sicrhau fod plant iau wedi ymweld â’r tŷ bach cyn mynd i’r cerbyd.
- Ni chaniateir bwyta nac yfed bwyd a diod ar y cerbyd am resymau diogelwch.
- ADY – Ni ddylid mynd ag eitemau caled neu drwm ar y cludiant a allai beri niwed i rywun pe byddent yn cael eu taflu.
- Ysmygu ac E sigarennau - Ni chaniateir y rhain ar neu gerllaw'r cerbydau.
- Bydd gwiriadau Datgelu a Gwahardd yn cael eu gwneud ar bob gyrrwr a hebryngwr.
- Bydd gan bob gyrrwr a hebryngwr fathodynnau adnabod
- Ni chaniateir i yrwyr a hebryngwyr godi plant i mewn ac allan o gerbydau
- Gyda chludiant drws i ddrws cadwch rifau cyswllt i’r contractwr gerllaw a rhoi gwybod iddynt mewn da bryd os na fydd angen cludiant oherwydd salwch, apwyntiadau ayb. Os nad oes angen cludiant yn y bore yn sgil apwyntiad gyda’r meddyg neu’r deintydd, sicrhewch fod y contractwr yn ymwybodol eich bod wedi mynd â’ch plentyn i’r ysgol a bod angen cludiant yn y prynhawn.
- Ni chaniateir i yrwyr na hebryngwyr roi meddyginiaeth wrth gludo.
- ADY - Sicrhewch fod y Tîm Cludiant Teithwyr yn cael gwybod am unrhyw newid mewn manylion i’r rhai a roddwyd yn wreiddiol ar y ffurflen gais am Gludiant a pheidiwch â dweud wrth y gyrrwr yn unig.

- Tacsis/bysiau mini – Mae rhieni yn gyfrifol am sicrhau eu bod hwy neu oedolyn priodol yn y cartref ar ddiwedd y dydd i dderbyn y plentyn. Os oes hawl gan blentyn i adael eu hunain i'r tŷ yna dylid cadarnhau hyn yn ysgrifenedig i'r Tîm Cludiant Teithwyr.
  Gan ddibynnu ar oed/aeddfedrwydd y disgybl, os ydych yn caniatáu iddynt gerdded o'r tacsi i'r cartref, rhaid i chi roi arwydd yn cydnabod i'r gyrrwr / hebryngwr eich bod adref ac yn ymwybodol bod eich plentyn wedi ei ollwng o'r cerbyd.
- ADY - ni chaniateir cadeiriau olwyn newydd ar y cerbyd hyd oni fydd y rhiant/gofalwr wedi llofnodi ac arwyddo bod y math o offer gaiff ei ddefnyddio yn addas. Yn yr achosion hyn bydd yr isadran Cludiant ADY yn rhoi ffurflen i'r rhieni gytuno arni neu ei diwygio a'i llofnodi cyn bod y cludiant yn dechrau.

----------------------------------------------------------------------------------------------------------------

**Ymddygiad**

Mae rhieni/gofalwyr yn gyfrifol am ymddygiad eu plant a byddai'n ddefnyddiol os gellid atgoffa disgyblion yn gyson ar sut i ymddwyn wrth deithio ar gludiant ysgol. Mae diogelwch teithwyr eraill a defnyddwyr eraill ar y ffordd yn hollbwysig a bydd camymddwyn peryglus yn arwain at ddiddymu'r cludiant a chyfrifoldeb y rhieni wedyn fydd sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol.
Bydd rhieni/gofalwyr yn gyfrifol am dalu'r contractwr am unrhyw ddifrod a wnaed gan eu plentyn.
Ni ddylai disgyblion ddefnyddio camerâu eu ffonau symudol ar gludiant ysgol.
Ni ddylai disgyblion ofyn i yrwyr a hebryngwyr fod yn ffrindiau iddynt ar gyfryngau cymdeithasol.
Mae'n bosib y caiff teledu CC ei ddefnyddio i fonitro ymddygiad ar gerbydau penodol. Bydd hysbysiadau wedi eu gosod i ddangos hyn.

**Prif ffrwd - Wrth dderbyn trwydded fws rydych yn ymrwymo i God Ymddygiad Teithio Llywodraeth Cymru a'r polisi o'r Cartref i'r Ysgol y ceir eu manylion ar wefan Bro Morgannwg.**

Mawr obeithiwn y bydd cludiant ysgolion yn brofiad hapus i chi. Os nad yw popeth yn eich bodloni cysylltwch â ni ac fe wnawn ein gorau i'w ddatrys yn gyflym.

Rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella'r gwasanaeth a chroesawn unrhyw awgrymiadau.

----------------------------------------------------------------------------------------------------------------

**Tywydd eithafol**

<u>AMODAU TYWYDD PERYGLUS</u>

Gall amodau tywydd beri problemau mawr o safbwynt darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol. Gyda diogelwch flaenaf, contractwyr fydd â'r penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y gwasanaeth yn gweithredu ai peidio ag union amseriad y gwasanaeth os bydd yn rhedeg mewn cyfnod o dywydd gwael dros ben.
Er mwyn rheoli hyn yn effeithiol, sicrhewch eich bod yn ymwybodol o'r tywydd diweddaraf drwy'r adeg a sicrhewch fod eich rhifau cyswllt ffôn yn gyfredol hefyd.

Bydd ysgolion yn rhoi gwybod i ganolfan gyswllt y Fro os byddant yn cau ac fe gaiff y rhain eu cyhoeddi'n sydyn ar wefan Bro Morgannwg [www.valeofglamorgan.gov.uk.](http://www.valeofglamorgan.gov.uk) Mae radio lleol fel rheol yn darlledu'r newyddion diweddaraf am gau ysgolion mewn tywydd gwael dros ben.

Os rhagwelir tywydd gwael ac nad yw'r Cyngor wedi cyhoeddi bod yr ysgol(ion) yn cau, y contractwr fydd yn penderfynu os fydd y teithiau yn y bore yn weithredol. Os yw contractwr yn gweithredu yn y bore dylid disgwyl y bydd yn gweithredu yn y prynhawn oni bai fo'r tywydd yn

gwaethygu’n sylweddol neu fod y rhagolygon yn darogan bod y tywydd am waethygu. Os na fydd teithiau boreol yn weithredol yn sgil tywydd gwael, rhaid i gontractwyr roi gwybod i Benaethiaid a’r Tîm Cludiant Teithwyr o’u penderfyniad yn syth.

Pan wneir penderfyniad i beidio rhedeg siwrne yn y bore, rhaid i weithredwyr fod yn effro i’r ffaith y gall amodau wella i’r graddau bod siwrne yn y prynhawn yn bosib. Mae hyn yn hynod berthnasol lle bydd rhieni wedi mynd â’u plant i’r ysgol sydd fel rheol yn cael eu cludo ar gludiant ysgol. Yn y sefyllfaoedd hyn rhaid i rieni disgyblion prif ffrwd neu ADY adael i’r contractwr wybod eu bod wedi mynd â’u plentyn i’r ysgol a’u bod yn dymuno iddynt gael eu cludo adref yn y prynhawn. Ni fydd disgwyl i gontractwr fynd â phlentyn adref os aeth y plentyn i’r ysgol gyda’i riant a bod asesiad yn ystyried nad oes modd gweithredu siwrne yn y prynhawn.

Os bydd amodau'r tywydd yn gwaethygu yn ystod y dydd, mae’n bosib y bydd Penaethiaid yn penderfynu cau eu hysgolion yn gynnar. Mewn achosion felly gofynnir i gontractwyr ddarparu cludiant mor fuan ag y bo modd. Mae ysgolion sy’n cau yn gynharach nag arfer yn gyfrifol am sicrhau fod rhieni disgyblion cynradd ac ADY ar gael i dderbyn eu plant (neu wedi trefnu i oedolyn cyfrifol arall wneud hynny).

# Yr Hebryngwr

Drwy weithio ar gludiant ysgol rydych yn cytuno i gadw at y Cod Ymarfer hwn. Mae eich swyddogaeth yn un bwysig dros ben. Chi sy'n gyfrifol am oruchwylio'r teithwyr tra bod hwy dan eich gofal a dylech weithio mewn partneriaeth gyda'r gyrrwr fel tîm. Y gyrrwr sydd yn gyfrifol am y cerbyd yn gyffredinol.

Rhaid bod gwiriad Datgelu a Gwahardd uwch gennych (GDG bellach, gynt yn SCT) a wnaed gan y Tîm Cludiant Teithwyr cyn dechrau gweithio ar gludiant.

Rhaid gwisgo bathodyn adnabod pan fyddwch ar ddyletswydd.
Dylech fod wedi eich gwisgo'n addas i weithio gyda phlant ysgol, heb ddim eitemau dillad yn llusgo o'ch hôl a allasai gydio yn rhywbeth a dylech wisgo esgidiau addas.

Dylid trin teithwyr, rhieni/gofalwyr a staff ysgol mewn modd cwrtais a bonheddig bob amser hyd yn oed os nad ydynt hwy yn ymddwyn felly atoch chi. Os oes problemau yna cysylltwch â'ch contractwr neu gludiant ysgol i gael cyngor. Gwell peidio â dadlau neu fynegi barn.

Dylech barchu cyfrinachedd bob amser.

Dylech gadw llyfr cofnod/nodiadau i nodi digwyddiadau yn ddyddiol.

Sicrhewch fod disgyblion yn eistedd yn ddiogel ac yn gwisgo eu gwregysau diogelwch cyn bod y cerbyd yn dechrau symud.

Efallai y bydd angen eich cymorth ar y gyrrwr wrth facio nôl.

**Teithwyr**
ADY a cherbydau 16 sedd neu lai – Dylech fod wedi cyflwyno'ch hun gyda'r gyrrwr i ddisgyblion newydd a'u rhieni/gofalwyr cyn dechrau'r flwyddyn academaidd neu cyn bod disgyblion yn teithio ar eich cerbyd os byddant yn dechrau ar ôl mis Medi. **ADY** – Dyma gyfle da i ddarganfod sut orau i reoli'r teithiwr os oes anghenion penodol ac i drafod manylion y teithiwr ar y ffurflen gludiant yn eich ffolder taith. Bydd gwybodaeth am bob teithiwr gennych yn eich ffolder taith sy'n cynnwys y ffurflen gludiant a roddwyd gan yr is-adran cludiant ysgol ADY sy'n cynnwys y wybodaeth y byddwch angen ei gwybod am bob disgybl ac unrhyw anghenion penodol all fod gan y disgybl. Dylid cadw'r ffolder yn saff wedi pob taith gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bersonol am y teithwyr. Dylech drin y wybodaeth hon yn gyfrinachol.

---

Dylid darparu seddi ceir a seddi uwch yn unol â chyfraith seddi ceir.

Dylech osgoi cyffwrdd y disgybl yn ddiangen ac os oes angen cynnig sicrwydd neu annog dylech gyfyngu eich cyffyrddiad i ran uchaf y fraich h.y. o'r pen elin i'r ysgwydd. Yn amlwg rhaid gwneud disgybl yn ddiogel a chyfforddus os na allan nhw wneud hyn drostynt eu hunain. Dylech barchu urddas ac annibyniaeth teithwyr a sicrhau eu bod yn teithio mor gyfforddus a diogel â phosib.

---------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Mae Cludiant ADY o'r cartref ac yn ôl yno, oni bai bod yr is-adran cludiant ysgol yn hysbysu'n wahanol. Peidiwch â derbyn cyfarwyddyd gan ddisgyblion gwiriwch gyda'r is-adran cludiant ysgol bob tro.

---------------------------------------------------------------------------------------------------------------

**Diogelu** – Ymgyfarwyddwch â'r atodiad Diogelu. Os oes unrhyw bryderon ynghylch diogelu plentyn gennych yna cysylltwch â'r is-adran cludiant ysgol neu'r ysgol os yw'n fater brys ond rhowch wybod i'r Tîm Cludiant Teithwyr.

---------------------------------------------------------------------------------------------------------------

**Diogelu Data ADY yn unig** – Ymgyfarwyddwch â'r atodiad Diogelu Data a gwnewch yn siŵr bod gwybodaeth disgyblion wedi ei gadw'n ddiogel wedi'r daith ysgol.

---------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Dylech wirio tu mewn i'r cerbyd cyn pob taith, er mwyn sicrhau nad oes yna unrhyw eitemau anaddas ynddo, bod y drysau yn agor, bod cloeon plant yn eu lle i'w defnyddio wrth gasglu teithwyr a bod offer cadair olwyn addas ar gael os bydd ei angen. Dylid gwirio diffoddyddion tân a blychau cymorth cyntaf yn gyson. Gwiriwch y cerbyd ar derfyn y siwrne i sicrhau bod popeth yn ei le.

**ADY a thacsis prif ffrwd** – Dylech sicrhau fod unrhyw fagiau yn cael eu storio'n ddiogel yn y gist neu eu diogelu ar sedd sbâr gyda'r gwregys diogelwch er mwyn sicrhau nad ydynt yn peri niwed pe byddai'r cerbyd yn aros mewn argyfwng.

Dylech sicrhau bod pob plentyn yn eistedd yn gywir ac wedi eu diogelu'n briodol gan eu gwregys diogelwch, sedd arbennig, harnais ac yn achos teithwyr cadair olwyn bod y gadair olwyn wedi ei chlymu'n briodol gyda'r offer yn ôl y cyfarwyddyd sydd yn eich ffolder las.

Dylech fod yn gallu gweld yr holl deithwyr pan fyddwch yn teithio.
Dylech gynnal perthynas gwrtais a phroffesiynol hyd braich gyda'r teithwyr a'u rhieni/gofalwyr. Dylid osgoi sgyrsiau, pynciau ac iaith amhriodol bob amser. Peidiwch â rhoi losin nac anrhegion i'r teithwyr na chysylltu â nhw ar gyfryngau cymdeithasol, Facebook, am eich bod yno i edrych ar eu holau a gallai hyn gael ei gamddehongli maes o law yn y dyfodol.

**ADY a thacsis prif ffrwd** - Peidiwch â gadael teithwyr eraill ar eu pennau eu hunain ar unrhyw adeg. Dylai'r rhiant ddod â'r teithiwr i'r cerbyd a'i dderbyn o'r cerbyd. Ar gyrraedd yr ysgol dylech weithio mewn partneriaeth gyda'r gyrrwr a ddylai rannu'r trosglwyddo disgyblion i staff yr ysgol gyda chi os bydd angen. Pan gyrhaeddwch gartref dylech fod yn ymwybodol bod rhiant/gofalwr neu berson cyfrifol wedi derbyn y plentyn. Os byddwch yng nghwmni disgyblion hŷn sy'n cael gadael eu hunain i mewn i'w cartrefi, yna rhaid i hyn gael ei gadarnhau'n ysgrifenedig gan y rhiant i'r is-adran cludiant ysgol a fydd wedyn yn eich hysbysu chi yn ysgrifenedig. Disgyblion ADY – Fe fydd nodyn ar ffurflen gludiant y disgybl os allant ollwng eu hunain i'w cartrefi.
Ar gyrraedd cartref disgybl yn y bore, os nad yw'r disgybl yn barod arhoswch am 3 munud. Os yw'r broblem yn parhau cysylltwch â'r Tîm Cludiant Teithwyr a fydd yn delio â'r mater gyda'r rhiant/gofalwr.
Ar gyrraedd cartref disgybl yn y prynhawn os nad yw'r rhiant/gofalwr adref dylech adael cerdyn i ddweud eich bod wedi galw, rhoi gwybod i'ch contractwr neu gludiant ysgol yn syth er mwyn cael cyngor a pharhau â'r siwrne. Fel rheol y cyngor fyddai i gwblhau'r daith a galw unwaith eto

yng nghartref y disgybl neu gludo'r disgybl nôl i'r ysgol gan ddibynnu ar amser a phellter. Tra'ch bod chi'n parhau â'ch taith, gwneir ymdrechion i gysylltu â'r rhiant/gofalwr.

Peidiwch â siarad â'r gyrrwr ynghylch disgyblion eraill nac unrhyw beth amhriodol pan fo disgyblion eraill yn y cerbyd, hyd yn oed os tybiwch na allant ddeall yr hyn yr ydych yn ei ddweud.

---

**Torri neu oedi**
Os bydd y cerbyd yn torri neu fod yna oedi, dylech roi gwybod i'r contractwr cyn gynted ag y bo modd. Dylid rhoi gwybod i rieni.

---

**Damweiniau**
Os digwydd damwain dylid cysylltu â'r gwasanaethau brys os bydd angen. Dylid hysbysu'r contractwr a'r Tîm Cludiant Teithwyr yn syth ynghylch unrhyw ddamwain neu anafiadau pa mor fach bynnag hyd yn oed os yw'n ymddangos nad yw'r plentyn wedi ei effeithio.

---

**Hyfforddiant**
Mae'r contractwr yn gyfrifol am sicrhau eich bod chi wedi'ch hyfforddi'n addas a'ch bod yn ymwybodol o anghenion y disgyblion a sut i'w deall a'u rheoli hwy orau. Efallai y bydd yn rhaid i chi fynychu hyfforddiant perthnasol o bryd i'w gilydd a ddarperir gan y cyngor law yn llaw â'r ysgol a'r darparwr cludiant. Bydd pynciau hyfforddi yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir.
**ADY** - Bydd gwybodaeth am ddisgyblion yn eich ffolder las, cysylltwch â'r is-adran gludiant os bydd angen cyngor pellach arnoch.

Ar gerbydau penodol dylech wybod sut mae ffrwyno teithwyr a'u cadeiriau olwyn yn gywir. Dylech fod wedi derbyn hyfforddiant ar weithrediad cywir y lifft teithwyr (os yn berthnasol). Ni ddylech godi teithwyr. Gellir cysylltu â'r is-adran cludiant os bydd unrhyw faterion codi a chario yn codi. Gall yr is-adran cludiant ysgol eich cynorthwyo os ydych yn ansicr am rywbeth, peidiwch â bod ofn gofyn.

---

**Meddyginiaeth**
Ni chaniateir i yrwyr na hebryngwyr roi meddyginiaeth, tra ar gludiant. Os bydd angen cymorth meddygol brys ar deithiwr, dylid ceisio'u gwneud i deimlo mor gyfforddus ag y bo modd tra bod y gyrrwr/hebryngwr yn ffonio'r gwasanaethau brys. Dylech gymryd y teithiwr i'r cartref, ysgol, neu'r lleoliad meddygol agosaf pa un bynnag sydd agosaf i geisio cael cymorth. Gan ddibynnu ar eich lleoliad efallai mai'r cyngor brys fydd i aros am gymorth. Ym mhob achos dylid rhoi gwybod i'r rhiant. Ar gyfer disgyblion ADY, gallwch roi'r ffurflen cludiant teithwyr yn y ffolder las i'r gwasanaethau brys am ei fod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol.
**Ymddygiad**
Os yw teithiwr yn camymddwyn, dylai'r hebryngwr ofyn i'r gyrrwr aros tra bod y sefyllfa yn ymdawelu. Dylid cysylltu â'r heddlu os oes yna fygythiad i unrhyw un ar y cerbyd. Dylid rhoi gwybod i'r Tîm Cludiant Teithwyr. Peidiwch â pheryglu eich hun na neb arall.
**Ysmygu ac E sigarennau**
Mae'r rhain wedi eu gwahardd ar gludiant ysgol. Peidiwch ag ysmygu na defnyddio E sigarennau yn y cerbyd neu o'i amgylch, ar neu yn agos i diroedd ysgolion na chyn dechrau ar eich taith.
**Teithio heb ei awdurdodi**
Ni ddylai unrhyw berson ar unrhyw gyfrif, deithio nad yw wedi ei awdurdodi gan y cyngor.
Dylai cludiant ysgol fod yn brofiad cyfforddus a di-straen i'r teithwyr. Rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella'r gwasanaeth a chroesawn unrhyw awgrymiadau.

Os bydd disgybl yn dianc pan fydd dan eich gofal chi, dylech ofyn am gyngor gan y tîm cludiant yn syth.

Dylech godi unrhyw bryderon gyda'r Tîm Cludiant Teithwyr neu eich contractwr.

# Gyrrwr

Drwy weithio ar gludiant ysgol rydych yn cytuno i gadw at y Cod Ymarfer hwn. Mae eich swyddogaeth yn un bwysig dros ben. Chi sy'n gyfrifol am y teithwyr tra bod hwy dan eich gofal a dylech weithio mewn partneriaeth gyda'r hebryngwr (os yn berthnasol) fel tîm. Y gyrrwr sydd yn gyfrifol am y cerbyd yn gyffredinol. Os nad oes angen hebryngwr ar eich cerbyd sicrhewch eich bod yn ymwybodol o ddyletswyddau'r hebryngwr gan mai chi fydd yr unig un â chyfrifoldeb dros y disgybl.

Rhaid bod gwiriad Datgelu a Gwahardd uwch gennych (GDG bellach, gynt yn SCT) a wnaed cyn dechrau gweithio ar gludiant.

Rhaid gwisgo bathodyn adnabod pan fyddwch ar ddyletswydd.
Dylech fod wedi eich gwisgo'n addas i weithio gyda phlant ysgol, heb ddim eitemau dillad yn llusgo o'ch hôl a allasai gydio yn rhywbeth a dylech wisgo esgidiau addas.

Dylid trin teithwyr, rhieni/gofalwyr a staff ysgol mewn modd cwrtais a bonheddig bob amser hyd yn oed os nad ydynt hwy yn ymddwyn felly atoch chi. Os oes problemau yna cysylltwch â'ch contractwr neu gludiant ysgol i gael cyngor. Gwell peidio â dadlau neu fynegi barn.

Dylech barchu cyfrinachedd bob amser.

ADY – Dylech ddefnyddio llyfr nodiadau/cofnod er mwyn nodi digwyddiadau dyddiol allasai fod o ddefnydd yn y dyfodol.

Dylai disgyblion yn eistedd yn ddiogel ac yn gwisgo eu gwregysau diogelwch cyn bod y cerbyd yn dechrau symud.

Gall yr hebryngwr (os yn berthnasol) eich cynorthwyo os bydd angen bacio am yn ôl.

**Teithwyr**
**ADY a cherbydau dan 16 sedd.** - Dylech fod wedi cyflwyno'ch hun gyda'r hebryngwr os yn addas i ddisgyblion newydd a'u rhieni/gofalwyr cyn dechrau'r flwyddyn academaidd neu cyn bod disgyblion yn teithio ar eich cerbyd os byddant yn dechrau ar ôl mis Medi. Dyma gyfle da i ddarganfod sut orau i reoli'r teithiwr os oes anghenion penodol ac i drafod manylion y teithiwr ar y ffurflen gludiant yn eich ffolder taith.
**ADY - Bydd gwybodaeth am bob teithiwr gennych yn eich ffolder taith sy'n cynnwys y ffurflen gludiant a roddwyd gan y Tîm Cludiant Teithwyr, bydd y rhiant/gofalwr wedi rhoi'r manylion a bydd yn cynnwys y wybodaeth y byddwch angen ei gwybod am bob disgybl ac unrhyw anghenion penodol all fod gan y disgybl.** Dylid cadw'r ffolder yn saff wedi pob

taith gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bersonol am y teithwyr. Dylech drin y wybodaeth hon yn gyfrinachol.

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

Dylid darparu seddi ceir a seddi uwch yn unol â chyfraith seddi ceir.

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

Dylech geisio osgoi cyffwrdd y disgybl ac os oes angen cynnig sicrwydd neu annog dylech gyfyngu eich cyffyrddiad i ran uchaf y fraich h.y. o'r pen elin i'r ysgwydd. Yn amlwg rhaid gwneud disgybl yn ddiogel a chyfforddus os na allan nhw wneud hyn drostynt eu hunain. Dylech barchu urddas ac annibyniaeth teithwyr a sicrhau eu bod yn teithio mor gyfforddus a diogel â phosib.

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

Mae Cludiant ADY o'r cartref ac yn ôl yno, oni bai bod yr is-adran cludiant ysgol yn hysbysu'n wahanol. Peidiwch â derbyn cyfarwyddyd gan ddisgyblion gwiriwch gyda'r is-adran cludiant ysgol bob tro.

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

**Diogelu – Ymgyfarwyddwch â'r atodiad Diogelu.** Os oes unrhyw bryderon ynghylch diogelu plentyn gennych yna cysylltwch â'r is-adran cludiant ysgol neu'r ysgol os yw'n fater brys ond rhowch wybod i'r Tîm Cludiant Teithwyr.

Dylech barchu urddas ac annibyniaeth teithwyr a sicrhau eu bod yn teithio mor gyfforddus a diogel â phosib.

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

**Diogelu Data ADY yn unig – Ymgyfarwyddwch â'r atodiad Diogelu Data a gwnewch yn siŵr bod gwybodaeth disgyblion wedi ei chadw'n ddiogel wedi'r daith ysgol.**

-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os nad oes yna hebryngwr dylech wirio y tu mewn i'r cerbyd cyn pob siwrne, gan sicrhau nad oes yna eitemau anaddas arno a bod y drysau yn agor.

**ADY a Chynradd** - sicrhewch fod cloeon plant yn eu lle i'w defnyddio wrth gasglu'r teithwyr a bod offer cadair olwyn addas ar gael os bydd angen. Dylid gwirio diffoddyddion tân os yn berthnasol a blychau cymorth cyntaf yn gyson. Gwiriwch y cerbyd ar derfyn y siwrne i sicrhau bod popeth yn ei le.

**ADY a cherbydau llai na 16 sedd** – Dylech sicrhau fod unrhyw fagiau yn cael eu storio'n ddiogel yn y gist neu eu diogelu ar sedd sbâr gyda'r gwregys diogelwch er mwyn sicrhau nad ydynt yn peri niwed pe byddai'r cerbyd yn aros mewn argyfwng.

Dylech sicrhau bod pob plentyn yn eistedd yn gywir ac wedi eu diogelu'n briodol gan eu gwregys diogelwch, sedd arbennig, harnais ac yn achos teithwyr cadair olwyn bod y gadair olwyn wedi ei chlymu'n briodol gyda'r offer yn ôl y cyfarwyddyd sydd yn eich ffolder las.

Dylech chi neu'r hebryngwr os yn berthnasol fod yn gallu gweld yr holl deithwyr pan fyddwch yn teithio.

Dylech gynnal perthynas gwrtais a phroffesiynol hyd braich gyda'r teithwyr a'u rhieni/gofalwyr. Dylid osgoi sgyrsiau, pynciau ac iaith amhriodol bob amser. Peidiwch â rhoi losin nac anrhegion i'r teithwyr na chysylltu â nhw ar gyfryngau cymdeithasol, am eich bod yno i'w cludo a gallai hyn gael ei gamddehongli maes o law yn y dyfodol.

**ADY a thacsis prif ffrwd – Peidiwch â gadael teithwyr eraill ar eu pennau eu hunain ar unrhyw adeg.** Dylai'r rhiant/gofalwr ddod â'r teithiwr i'r cerbyd a'i dderbyn o'r cerbyd. Ar gyrraedd yr ysgol dylech weithio mewn partneriaeth gyda'r hebryngwr a ddylai rannu'r trosglwyddo teithwyr i staff yr ysgol gyda chi os bydd angen. Pan gyrhaeddwch gartref dylech fod yn ymwybodol bod rhiant/gofalwr neu berson cyfrifol wedi derbyn y plentyn. Os byddwch yng nghwmni disgyblion hŷn sy'n cael gadael eu hunain i mewn i'w cartrefi, yna rhaid i hyn gael ei gadarnhau'n ysgrifenedig gan y rhiant i'r is-adran cludiant ysgol a fydd wedyn yn eich

hysbysu chi yn ysgrifenedig. **Disgyblion ADY** – Fe fydd nodyn ar ffurflen gludiant y disgybl os allant ollwng eu hunain i'w cartrefi.
Ar gyrraedd cartref disgybl yn y bore, os nad yw'r disgybl yn barod arhoswch am 3 munud. Os yw'r broblem yn parhau cysylltwch â'r is-adran gludiant a fydd yn delio â'r mater gyda'r rhiant/gofalwr.
Ar gyrraedd cartref disgybl yn y prynhawn os nad yw'r rhiant/gofalwr adref dylech adael cerdyn i ddweud eich bod wedi galw, rhoi gwybod i'ch contractwr neu gludiant ysgol yn syth er mwyn cael cyngor a pharhau â'r siwrne. Fel rheol y cyngor fyddai i gwblhau'r daith a galw unwaith eto yng nghartref y disgybl neu gludo'r disgybl nôl i'r ysgol gan ddibynnu ar amser a phellter. Tra'ch bod chi'n parhau â'ch taith, gwneir ymdrechion i gysylltu â'r rhiant/gofalwr.

Peidiwch â siarad â'r hebryngwr ynghylch disgyblion eraill nac unrhyw beth amhriodol pan fo disgyblion eraill yn y cerbyd, hyd yn oed os tybiwch na allant ddeall yr hyn yr ydych yn ei ddweud.

**-------------------------------------------------------------------------------------------------------**

**Torri neu oedi**
Os bydd y cerbyd yn torri neu fod yna oedi, dylech roi gwybod i'r contractwr cyn gynted ag y bo modd. Dylid rhoi gwybod i rieni.

**-------------------------------------------------------------------------------------------------------**

**Damweiniau**
Os digwydd damwain dylid cysylltu â'r gwasanaethau brys os bydd angen. Dylid hysbysu'r contractwr a'r Tîm Cludiant Teithwyr yn syth ynghylch unrhyw ddamwain neu anafiadau pa mor fach bynnag hyd yn oed os yw'n ymddangos nad yw'r plentyn wedi ei effeithio.

**-------------------------------------------------------------------------------------------------------**

**Hyfforddiant**
Mae'r contractwr yn gyfrifol am sicrhau eich bod chi wedi'ch hyfforddi'n addas a'ch bod yn ymwybodol o anghenion y disgyblion a sut i'w deall a'u rheoli hwy orau. Efallai y bydd yn rhaid i chi fynychu hyfforddiant perthnasol o bryd i'w gilydd a ddarperir gan y cyngor law yn llaw â'r ysgol a'r darparwr cludiant. Bydd pynciau hyfforddi yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir.
**ADY - Bydd gwybodaeth am ddisgyblion yn eich ffolder las, cysylltwch â'r is-adran gludiant os bydd angen cyngor pellach arnoch.**
**ADY** - Ar gerbydau penodol dylech wybod sut mae defnyddio'r offer cywir i ffrwyno teithwyr a chlymu cadeiriau olwyn yn gywir. Dylech fod wedi derbyn hyfforddiant ar weithrediad cywir y lifft teithwyr (os yn berthnasol) wedi ei drefnu gan eich contractwr. Ni ddylech godi teithwyr. Gellir cysylltu â'r is-adran cludiant os bydd unrhyw faterion codi a chario yn codi. Gall yr is-adran cludiant ysgol eich cynorthwyo os ydych yn ansicr am rywbeth, peidiwch â bod ofn gofyn.

**-------------------------------------------------------------------------------------------------------**

**Meddyginiaeth**
Ni chaniateir i yrwyr na hebryngwyr roi meddyginiaeth, tra ar gludiant. Os bydd angen cymorth meddygol brys ar deithiwr, dylid ceisio'u gwneud i deimlo mor gyfforddus ag y bo modd tra bod y gyrrwr/hebryngwr yn ffonio'r gwasanaethau brys. Dylech gymryd y teithiwr i'r cartref, ysgol, neu'r lleoliad meddygol agosaf pa un bynnag sydd agosaf i geisio cael cymorth. Gan ddibynnu ar eich lleoliad efallai mai'r cyngor brys fydd i aros am gymorth. Ym mhob achos dylid rhoi gwybod i'r rhiant. Ar gyfer disgyblion ADY, gallwch roi'r ffurflen cludiant teithwyr yn y ffolder las i'r gwasanaethau brys am ei fod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol.
**Ymddygiad**
Os yw teithiwr yn camymddwyn, dylai'r hebryngwr ofyn i'r gyrrwr aros tra bod y sefyllfa yn ymdawelu. Dylid cysylltu â'r heddlu os bydd hynny'n angenrheidiol. Dylid rhoi gwybod i'r Tîm Cludiant Teithwyr. Peidiwch â pheryglu eich hun na neb arall.

**Ysmygu ac E sigarennau**
Mae'r rhain wedi eu gwahardd ar gludiant ysgol. Peidiwch ag ysmygu na defnyddio E sigarennau yn y cerbyd neu o'i amgylch, ar neu yn agos i diroedd ysgolion na chyn dechrau ar eich taith.
**Teithio heb ei awdurdodi**
Ni ddylai unrhyw berson deithio ar unrhyw gyfrif, nad yw wedi ei awdurdodi gan y cyngor.
Dylai cludiant ysgol fod yn brofiad cyfforddus a di-straen i'r teithwyr. Rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella'r gwasanaeth a chroesawn unrhyw awgrymiadau.

Os bydd disgybl yn dianc pan fydd dan eich gofal chi, dylech ofyn am gyngor gan y tîm cludiant yn syth.

Dylech godi unrhyw bryderon gyda'r Tîm Cludiant Teithwyr neu eich contractwr.

-----------------------------------------------------------------------------------------------

**Cerbydau**
Mae pob cerbyd gaiff ei ddefnyddio i roi'r gwasanaeth wedi eu trwyddedu ym mhob agwedd, wedi eu hyswirio, â'r offer cywir, ac wedi eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel ac addas i'w gyrru yn unol â Rheoliadau'r Adran Drafnidiaeth, argymhellion y gwneuthurwyr a gofynion y Cyngor. Dylid gwirio pob cerbyd cyn dechrau unrhyw siwrne gan gynnwys y tu mewn i'r cerbydau.

Cedwir pob cerbyd gaiff ei ddefnyddio yn lân a hynny i safon uchel y tu mewn a'r tu allan. Byddant yn gyfforddus, wedi eu gwresogi a'u hawyru'n gywir i sicrhau fod y disgyblion yn gyfforddus.

**Systemau Cyfathrebu** – Rhaid cario ffôn symudol ar y cerbyd bob amser ar gyfer cyfathrebu a sefyllfaoedd argyfwng.

# Contractwr

Fel contractwr rydych yn gyfrifol am weithredu’r contract a chario teithwyr yn ddiogel. Dylech fod yn ymwybodol o delerau ac amodau eich contract a holl gynnwys y Cod Ymarfer. Gall methu â chydymffurfio arwain at ddiddymu’r contract neu arwain at erlyniad mewn ambell achos. Drwy weithio ar Gludiant o’r Cartref i’r Ysgol, rydych chi, eich gyrwyr a’ch hebryngwyr yn cytuno i ufuddhau i’r Cod Ymarfer hwn a dylech sicrhau bod eich gyrwyr a’ch hebryngwyr yn ymwybodol o hyn.

Mae’n rhaid i chi sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau cyn dechrau’r cytundeb ac yn ôl yr angen pan fydd yna newid yn y daith. Rhaid i chi fod yn ymwybodol o’r daith mae’r gyrwyr yn ei dilyn. Dylech adrodd am unrhyw broblem yn ymwneud â'r llwybr/materion gweithredol, e.e. problemau mynediad, seddau/offer cyn gynted ag y bo’n ymarferol, i’r Tîm Cludiant Teithwyr. Bydd gan bob ysgol bolisi Rheoli Traffig y dylech fod yn gyfarwydd â hi a dylech sicrhau bod eich gyrwyr yn ymwybodol o’r gweithdrefnau gollwng a chodi teithwyr yn yr ysgol.

Os nad oes modd darparu gwasanaeth dylech gysylltu â’r Tîm Cludiant Teithwyr yn syth.

Rhaid rhoi’r holl wybodaeth i’r Tîm Cludiant Teithwyr am bob taith e.e. gyrrwr, rhif bathodyn a’r dyddiad y daw i ben (os yn berthnasol) neu drwydded yrru a CPC, manylion cerbyd, rhif y cerbyd a'r dyddiad y daw i ben, yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, disg, tystysgrifau LOLER ayb lle bo’n berthnasol cyn dechrau’r contract. Rhaid i chi hysbysu’r Tîm Cludiant Teithwyr o unrhyw newid fel maent yn digwydd.
**ADY** - thacsis prif ffrwd - Rhaid cadarnhau'r newidiadau hyn neu ddatganiad o ddim newid ar y ddogfennaeth berthnasol gaiff ei roi gan y cyngor wrth i chi gyflwyno eich anfonebau misol. Eich cyfrifoldeb chi yw dweud wrthym am unrhyw newid a bydd oedi ar dalu eich anfoneb os nad yw’r datganiad wedi ei lofnodi a’i gyflwyno gyda’r anfoneb.

**Y cerbyd**

Mae pob cerbyd gaiff ei ddefnyddio i roi’r gwasanaeth wedi eu trwyddedu ym mhob agwedd, wedi eu hyswirio, â’r offer cywir, ac wedi eu cynnal a’u cadw mewn cyflwr diogel ac addas i’w gyrru yn unol â Rheoliadau’r Adran Drafnidiaeth, argymhellion y gwneuthurwyr a gofynion y Cyngor. Dylid gwirio pob cerbyd cyn dechrau unrhyw siwrne gan gynnwys tu mewn y cerbydau.

Cedwir pob cerbyd gaiff ei ddefnyddio yn lân a hynny i safon uchel y tu mewn a’r tu allan. Byddant yn gyfforddus, wedi eu gwresogi a'u hawyru'n gywir i sicrhau bod y disgyblion yn gyfforddus.

---

Rhaid i chi sicrhau bod eich staff wedi eu gwirio ar gyfer GDG gan y Tîm Cludiant Teithwyr, eu bod yn gwisgo bathodyn adnabod (a roddwyd gan y cyngor) ac wedi eu hyfforddi’n llawn i gyflawni eu dyletswyddau a mynychu unrhyw hyfforddiant gaiff ei ddarparu gan y cyngor. **ADY** Bydd angen i chi sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant achub bywyd elfennol (trafodwch hyn gyda'r tîm cludiant i sicrhau y defnyddir hyfforddwr cymwys).

**ADY** – Bydd pob cerbyd sy’n cario teithwyr mewn cadeiriau olwyn/bygis wedi eu ffitio â dyfais dracio briodol lle gellir cysylltu cadair olwyn â ffrwynau diogelwch yn unol â Chod Ymarfer yr Yr Adran Drafnidiaeth “The safety of passengers in wheelchairs on buses (publication VSE 87/1)”. Bydd TAG plastig wedi ei roi ar bob cadair olwyn yn nodi’r math o ffrwyn sydd i’w ddefnyddio (Bydd y wybodaeth yma wedi ei gynnwys yn y ffolder las). Os nad oes TAG neu os nad oes gwybodaeth yn y ffolder las yna ni ddylid cario’r gadair olwyn. Rhaid hyfforddi’r holl staff ar gario cadeiriau olwyn yn ddiogel cyn dechrau gweithio ar y cerbydau hyn. Bydd pob cerbyd sy’n cario teithwyr mewn cadeiriau olwyn wedi eu ffitio â lifft gefn mecanyddol neu efallai y bydd angen defnyddio ramp ar oleddf (na ddylai estyn allan fwy na 1 mewn 12) ond dim ond wedi trafod gyda’r cyngor. Dylai eich staff fod wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer gweithredu’r lifft a dylid cwblhau’r gwiriadau LOLER rheolaidd.

---

Bydd gwregysau diogelwch wedi eu gosod ar bob sedd yn unol ag amodau’r contract a’r ddeddfwriaeth gwregys diogelwch cyfredol.

Cyfrifoldeb y contractwr fydd sicrhau y bydd disgyblion yn teithio yn y seddi ceir, seddi uwch neu glustogau uwch cywir yn unol â’r ddeddfwriaeth gyfredol. Dylech fod yn ymwybodol o’r ddeddfwriaeth gyfredol y gellir dod o hyd iddo ar www.gov.uk

**Offer Cymorth Cyntaf** – Dylai offer Cymorth Cyntaf fod ar bob cerbyd cludiant ysgol.

**Diffoddydd Tân** – Mae angen dau ddiffoddydd tân ar fysiau mini i’w gosod ym mlaen a chefn y cerbyd. Caiff y rhain eu gosod mewn safle hygyrch yn unol â’r Rheoliadau Cerbydau ffordd (Adeiladu a Defnydd) 1996 a BS5423 a rhaid i bob PCV/PSV gario diffoddyddion sy’n cario nod y Sefydliad Safon Prydeinig rhif BS5423 neu EN3.1 Rhaid bod iddynt isafswm cyfradd prawf o 8A neu 21B a chynnwys un ai ddŵr neu ewyn.
Dylid defnyddio diffoddyddion tân dim ond i greu llwybr mynediad brys at ddrysau; dylai pawb wedyn gadw’n glir o’r cerbyd.

**Storio Addas Diogel** – mae hyn yn cyfeirio at storio eitemau teithwyr yn ddiogel megis
offer cerddorol a chwaraeon. Dylid darparu hwn a’i ddefnyddio i leihau
effaith gwrthrychau heb eu diogelu yn symud yn y caban yn ystod damwain ar y ffordd.

**Gwirio Nam Cerbyd Dyddiol** –rhain yw’r gwiriadau gorfodol a dylid eu cwblhau cyn bod y cerbyd yn dechrau ar ei lwybr dynodedig bob dydd.
<0} Dylai’r gwiriadau hyn gynnwys teiars, sychwyr ffenestri, goleuadau, hylifau (ffrwyn, olew, dŵr,
hylif sgrîn), glendid, presenoldeb offer cymorth cyntaf, diffoddydd tân,
rhif trwydded gweithredwr a rhif llwybr
yn ogystal â rhestru unrhyw ddifrod newydd y tu mewn neu’r tu allan.

**Systemau Cyfathrebu** – Rhaid cario ffôn symudol ar y cerbyd bob amser ar gyfer cyfathrebu a sefyllfaoedd argyfwng.

Rhaid bod arwyddion melyn a du trawiadol wedi eu gosod ar du blaen a thu ôl pob cerbyd â mwy nag wyth sedd sy'n cario plant i'r ysgol ac adref, yn unol â Rheoliadau Goleuadau Cerbydau Ffyrdd (Diwygiwyd) 1994. Rhaid i'r arwyddion hyn fod yn gwbl weladwy i ddefnyddwyr eraill y ffordd.

**ADY** – Rhaid bod y ffurflenni Cludiant ar gyfer pob plentyn a gyhoeddwyd gan y tîm cludiant ar gael a dylai gyrwyr a hebryngwyr fod yn gyfarwydd â'u cynnwys, mae gwybodaeth bwysig ynddynt am bob plentyn. Dylid cadw'r ffurflenni hyn yn ddiogel pan nad yw'r llwybrau i'r ysgol yn weithredol. Ar ddiwedd y contract rhaid eu dinistrio fel gwastraff cyfrinachol neu gellir eu dychwelyd i'r is-adran gludiant iddynt hwy eu gwaredu'n ddiogel.

**Codi o'r cartref** – Ni ddylai cerbydau aros yn hwy na thri munud yn disgwyl i blentyn fod yn barod yn y boreau.
Ar ddiwedd y dydd os na fydd rhiant adref yna dylid gadael nodyn gyda rhif cyswllt a pharhau â'r daith. Dylid hysbysu'r contractwr neu'r tîm Cludiant a byddant hwy yn ceisio cael gafael ar y rhiant. Efallai y bydd gofyn dychwelyd i'r ysgol neu ddychwelyd i'r cartref dan sylw ar ôl cwblhau'r daith.

Ni ddylai cerbydau gyrraedd yn gynharach na 10 munud cyn bod yr ysgol yn dechrau oni bai fo trefniant fel arall wedi ei wneud gyda'r Tîm Cludiant Teithwyr a'r Ysgol.

Rhaid bod cerbydau yn barod i dderbyn disgyblion o leiaf bum munud cyn diwedd y diwrnod ysgol.

Cyn dechrau'r flwyddyn ysgol, hysbysir y rhieni oll drwy lythyr yn rhoi gwybodaeth am y trefniadau cytundebol ar gyfer taith eu plentyn i'r ysgol ynghyd ag amser codi bras.
**Codi o'r cartref** - Mae wedi ei nodi ar y llythyr i rieni mai bras amcan yw'r amserau hyn ac y bydd y gyrrwr yn rhoi amser mwy cywir unwaith y bydd y llwybr ar waith. Dylai contractwyr sicrhau bod pob gyrrwr a hebryngwr yn cyflwyno'u hunain i rieni cyn dechrau'r tymor ysgol. Bydd hyn yn sicrhau bod rhieni a'u plant yn ymgyfarwyddo â'u gyrwyr/hebryngwyr ac yn lleddfu unrhyw bryderon allasai fod ganddynt o safbwynt trefniadau teithio eu plentyn i'r ysgol.

Dylai contractwyr benodi staff rheolaidd i lwybrau penodol fel rhan o amodau eu cytundeb i osgoi peri gofid i deithwyr a rhieni. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer dilyniant i rieni, plant ac ysgolion, yn enwedig lle bo anghenion cludiant penodol wedi eu pennu ac yn eu lle ar gyfer plentyn penodol.

## Teithwyr

Caiff teithwyr eu cludo rhwng mannau codi a gollwng dynodedig yn y cartref a'r ysgol, oni bai bod trefniadau amgen wedi eu cytuno gyda'r Tîm Cludiant Teithwyr.

**ADY a chludiant ysgol gynradd** – dylid trosglwyddo pob teithiwr at aelod o staff yr ysgol yn y bore ac at riant/gofalwr yn y prynhawn, dylai'r rhiant/gofalwr hebrwng y plentyn at y cerbyd a'i gasglu er mwyn osgoi gorfod gadael y teithwyr eraill ar eu pennau eu hunain. Ni ddylai'r hebryngwr/gyrrwr fyth adael y cerbyd heb neb i'w warchod tra bod plant arno.

Ni ddylid trosglwyddo teithwyr o un cerbyd i'r llall ar ganol taith ac eithrio os bydd cerbyd yn torri neu mewn argyfwng arall.

Dylid rhoi eu seddau unigol i bob teithiwr ar y cerbyd ac ni ddylent rannu sedd a rhoi dau blentyn ar un sedd oedolyn na thri o blant ar ddwy sedd oedolyn. Bydd y Contractwr hefyd yn sicrhau nad yw'r cerbyd yn cludo mwy o deithwyr nag y'i trwyddedir ar eu cyfer.

Rhaid bod gwregysau diogelwch wedi eu gosod ar bob cerbyd.

Dylid cario pàs bws bob tro gan fod cynllun dim trwydded dim teithio ar waith.

**Damweiniau**

Os digwydd damwain dylid cysylltu â'r gwasanaethau brys os bydd angen. Dylid rhoi gwybod i'r contractwr a'r Tîm Cludiant Teithwyr yn syth. Dylid adrodd ar bob damwain ac anaf, waeth pa mor ddibwys hyd yn oed os yw popeth yn ymddangos yn iawn.

**Torri neu oedi**

Os bydd cerbyd yn torri neu fod oedi, dylai gyrwyr roi gwybod i'w contractwr cyn gynted ag y bo modd a fydd yn eu tro yn rhoi gwybod i'r Tîm Cludiant Teithwyr. Dylid rhoi gwybod i rieni.
Os bydd cerbyd yn torri, os bydd damwain neu unrhyw beth arall sy'n rhwystro siwrne rhag cael ei chwblhau, cymerir pob gofal i sicrhau lles y teithwyr. Ni ddylid gadael y teithwyr ar eu pennau eu hunain dan unrhyw amgylchiadau a lle bo hynny'n bosibl, dylent aros yn y cerbyd. Os tybir nad yw'n ddiogel glynu at hynny, yna dylid eu hebrwng i fan diogel. Dylai'r gyrrwr hysbysu'r Tîm Cludiant Teithwyr neu'r Contractwr yn syth am unrhyw ddigwyddiad o'r math. Dylid cymryd y gofal mwyaf i leihau gofid neu bryder os bydd cerbyd yn torri.
Os nad oes modd darparu gwasanaeth dylid rhoi gwybod i'r Tîm Cludiant Teithwyr yn syth er mwyn gweithio mewn partneriaeth i ddod o hyd i ddatrysiad.

**Tywydd Peryglus**

Ar adeg o dywydd gwael pan fydd ffyrdd mewn cyflwr hynod o wael neu'n beryglus, dylai contractwyr benderfynu os ydynt am weithredu eu cerbydau ai peidio. Dylai diogelwch y teithwyr fod ar flaen y meddwl wrth wneud unrhyw benderfyniad. Dylai Contractwyr roi gwybod i'r Tîm Cludiant Teithwyr a rhoi gwybod i rieni cyn gynted ag y bo modd unwaith y gwneir penderfyniad i beidio gweithredu'r cerbydau. Mewn tywydd gwael, yn enwedig os yw'r rhagolygon yn darogan i'r tywydd waethygu, cynghorir contractwyr i beidio mynd allan. (gw. hefyd yr atodiad – tywydd eithafol)

**Ymddygiad Disgybl**

Os yw teithiwr yn camymddwyn, dylai'r gyrrwr aros tra bod y sefyllfa yn ymdawelu. Dylid cysylltu â'r heddlu os oes yna fygythiad i unrhyw un ar y cerbyd. Dylid rhoi gwybod i'r is-adran cludiant. Mae yna brotocol ar gyfer delio ag ymddygiad. Dylech sicrhau nad yw gyrwyr/hebryngwyr yn peryglu eu hunain na neb arall.

**Materion meddygol**

Ni chaniateir i yrwyr na hebryngwyr roi meddyginiaeth tra ar gludiant. Os bydd angen cymorth meddygol brys ar deithiwr, dylid ceisio'u gwneud i deimlo mor gyfforddus ag y bo modd tra bod y gyrrwr/hebryngwr yn ffonio'r gwasanaethau brys. Dylech gymryd y teithiwr i'r cartref, ysgol, neu'r lleoliad meddygol agosaf pa un bynnag sydd agosaf i geisio cael cymorth. Gan ddibynnu ar eich lleoliad efallai mai'r cyngor brys fydd i aros am gymorth. Ym mhob achos dylid rhoi gwybod i'r rhiant. **ADY** - Gellir rhoi'r ffurflen cludiant teithwyr i'r gwasanaethau brys am y bydd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol.

**Hyfforddiant**

Rhaid bod contractwyr, gyrwyr a hebryngwyr ar gael i fynychu hyfforddiant blynyddol i yrwyr a hebryngwyr. Dylai dechreuwyr newydd dderbyn arweiniad a hyfforddiant gan eu contractwr. **Cludiant cadeiriau olwyn –** Rhaid cwblhau hyfforddiant cadeiriau olwyn cyn weithio ar gludiant

ysgolion. Rhaid i gontractwyr roi hyfforddiant ar weithredu'r lifft teithwyr yn gywir (os yn berthnasol). Ni ddylid codi na chario teithwyr. Gellir cysylltu â'r is-adran cludiant os bydd unrhyw faterion codi a chario yn codi.

**Ysmygu ac E sigarennau**

Mae'r rhain wedi eu gwahardd ar gludiant ysgol. Peidiwch ag ysmygu na defnyddio E sigarennau yn y cerbyd neu o'i amgylch, ar neu yn agos i diroedd ysgolion na chyn dechrau ar eich taith.

**Cario Teithwyr Nad sydd wedi eu Hawdurdodi**

Ni chaniateir o dan unrhyw amgylchiadau i unrhyw berson deithio ar gludiant ysgol a gontractiwyd nad yw wedi ei awdurdodi gan yr Awdurdod i wneud hynny.

Dylai cludiant ysgol fod yn brofiad cyfforddus a di-straen i'r teithwyr. Rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella'r gwasanaeth a chroesawn unrhyw awgrymiadau.

**Tywydd eithafol**

AMODAU TYWYDD PERYGLUS

Gall amodau tywydd beri problemau mawr o safbwynt darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol. Gyda diogelwch flaenaf, contractwyr fydd â'r penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y gwasanaeth yn gweithredu ai peidio ag union amseriad y gwasanaeth os bydd yn rhedeg mewn cyfnod o dywydd gwael.
Er mwyn rheoli hyn yn effeithiol, sicrhewch eich bod yn ymwybodol o'r tywydd diweddaraf drwy'r adeg a sicrhewch fod eich rhifau cyswllt ffôn yn gyfredol hefyd.

Bydd ysgolion yn rhoi gwybod i ganolfan gyswllt y Fro os byddant yn cau ac fe gaiff y rhain eu cyhoeddi'n sydyn ar wefan Bro Morgannwg www.valeofglamorgan.gov.uk. Mae radio lleol fel rheol yn darlledu'r newyddion diweddaraf am gau ysgolion mewn tywydd gwael dros ben.

Os rhagwelir tywydd gwael ac nad yw'r Cyngor wedi cyhoeddi fod yr ysgol(ion) yn cau, y contractwr fydd yn penderfynu os fydd y teithiau yn y bore yn weithredol. Os yw contractwr yn gweithredu yn y bore dylid disgwyl y bydd yn gweithredu yn y prynhawn oni bai fo'r tywydd yn gwaethygu'n sylweddol neu bod y rhagolygon yn darogan bod y tywydd am waethygu. Os na fydd teithiau boreol yn weithredol yn sgil tywydd gwael, rhaid i gontractwyr roi gwybod i Benaethiaid a'r Tîm Cludiant Teithwyr o'u penderfyniad yn syth.

Pan wneir penderfyniad i beidio rhedeg siwrne yn y bore, rhaid i weithredwyr fod yn effro i'r ffaith y gall amodau wella i'r graddau bod siwrne yn y prynhawn yn bosib. Mae hyn yn hynod berthnasol lle bydd rhieni wedi mynd â'u plant i'r ysgol sydd fel rheol yn cael ei cludo ar gludiant ysgol. Yn y sefyllfaoedd hyn rhaid i rieni disgyblion prif ffrwd neu ADY adael i'r contractwr wybod eu bod wedi mynd â'u plentyn i'r ysgol a'u bod yn dymuno iddynt gael eu cludo adref yn y prynhawn. Ni fydd disgwyl i gontractwr fynd â phlentyn adref os aeth y plentyn i'r ysgol gyda'i riant a bod asesiad yn ystyried nad oes modd gweithredu siwrne yn y prynhawn.

Os bydd amodau'r tywydd yn gwaethygu yn ystod y dydd, mae'n bosib y bydd Penaethiaid yn penderfynu cau eu hysgolion yn gynnar. Mewn achosion felly gofynnir i gontractwyr ddarparu cludiant mor fuan ag y bo modd. Mae ysgolion sy'n cau yn gynharach nag arfer yn gyfrifol am sicrhau bod rhieni disgyblion cynradd ac Anghenion Addysg Ychwanegol ar gael i dderbyn eu plant (neu wedi trefnu i oedolyn cyfrifol arall wneud hynny).

# Diogelu plant

Mae diogelu plant yn gyfrifoldeb i bawb. Rhaid i blant gael eu diogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod, esgeuluso eu hiechyd neu atal eu datblygiad.

Mae gennych rôl bwysig iawn i'r chwarae yn gweithio ar drafnidiaeth ysgol gan eich bod mewn lle i weld pethau nad yw pobl eraill yn eu gweld. Os gwelwch unrhyw beth sy'n peri pryder o ran lles plentyn yn eich gofal, mae dyletswydd arnoch i roi gwybod am hyn. Gallwch roi gwybod i aelod o staff yn yr ysgol a/neu y Tîm Trafnidiaeth Teithwyr yng Nghyngor Bro Morgannwg.

Gall eich gwybodaeth fod yn rhan arall o'r jig-so ar gyfer diogelu plentyn ymysg gwybodaeth arall a roddwyd gan bartïon eraill, neu gallai fod yn wybodaeth frys y gweithredir arni ar unwaith.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofnodi unrhyw bryderon bach yn eich llyfr cofnodion oherwydd gallant ddod yn rhan o fater mwy yn y dyfodol.

Mae dyletswydd ar bob un ohonom i ddiogelu plant.

Diolch.